# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Ddydd Corwen**

**Meithrinfa Ddydd Corwen**
**Oddi Ar Green Lane**
**Corwen**
**LL21 0DN**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

18/05/2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Meithrinfa Ddydd Corwen

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Person Cofrestredig | Carmen Roberts-Davenport |
| Lleoedd cofrestredig | 75 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg a Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Manual Insert<br>06/09/2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Yn Gweithio Tuag Ato |

## Crynodeb

Arolygiad a gynhaliwyd yn ystod pandemig COVID-19 yw hwn felly rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd â blaenoriaeth ar gyfer y lleoliad hwn ac nid y fframwaith ansawdd cyfan.

Mae'r plant yn fodlon eu byd ac yn ffynnu yn y gwasanaeth hwn am eu bod yn cael eu parchu ac yn ymgysylltu'n llawn â'r amrywiaeth o weithgareddau sy'n cael eu cynnig. Maent yn gallu gwneud dewisiadau a phenderfyniadau, ac mae'r staff o'r farn bod eu diddordebau yn bwysig. Maent yn ddiogel, yn rhyngweithio'n dda ac yn dysgu gwneud pethau drostynt eu hunain.

Mae'r staff galluog a threfnus yn gofalu am y plant yn dda iawn ac yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddiogelwch y plant. Maent yn rheoli ymddygiad y plant yn garedig ac yn deg, ac mewn ffordd y mae'r plant yn ei deall. Maent yn brofiadol ac yn darparu gweithgareddau diddorol er mwyn helpu'r plant i ddatblygu a ffynnu.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac yn ysgogol, ac mae digonedd o ardaloedd chwarae a dysgu gwahanol a gweithgareddau ar gael i feithrin sgiliau'r plant yn effeithiol. Mae'r ardaloedd dan do ac awyr agored yn addas ac yn gyffrous i'r plant ac maent yn cynnwys eitemau go iawn megis hen gar. Mae adnoddau, teganau a gemau helaeth ar gael, ac mae'r rhain mewn cyflwr da iawn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn ymroddedig ac yn wybodus am yr arferion gofal plant presennol ac mae hyn yn sicrhau lefel eithriadol o ofal ar gyfer y plant. Maent yn flaengar ac yn gwneud gwelliannau eang er budd y plant a'u teuluoedd. Maent yn cefnogi ac yn cymell tîm o staff ymroddedig. Mae partneriaethau llwyddiannus a chadarn â'r rhieni, sy'n arwain at deuluoedd sy'n cael eu cefnogi a chanlyniadau cadarnhaol i'w plant.

## Llesiant

Mae gan y plant lais cryf a gallant ddylanwadu ar eu gofal yn effeithiol. Maent yn gallu gwneud dewisiadau a phenderfyniadau, ac mae'r staff o'r farn bod eu diddordebau yn bwysig. Caiff iaith cartref y plant ei pharchu ac mae llawer o'r staff yn siarad Cymraeg â'r plant hynny sydd â Chymraeg fel dewis iaith. Gall y plant symud o gwmpas yn rhydd, yn enwedig yn yr awyr agored, ac maent yn mynegi eu hunain yn hyderus ac yn cyfathrebu â'i gilydd a'r oedolion.

Mae'r plant yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol iawn â'r staff sy'n darparu gofal o ansawdd da yn gyson. Caiff y babanod eu cofleidio'n gynnes wrth iddynt gael eu bwydo, ac mae'r plant bach wedi meithrin cydberthnasau agos â'r staff hynny sy'n gofalu amdanynt. Mae'r plant yn mynd at y staff yn hapus i gael maldod ac i sgwrsio. Mae system gweithwyr allweddol da a phroses ‘ymgartrefu’. Dywedodd y rhieni fod eu plentyn yn hoff iawn o'r staff a bod eu plentyn wedi ymgartrefu'n dda.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda â'r staff a'r plant eraill. Maent yn rhannu ac yn gwneud ffrindiau, sy'n briodol ar gyfer eu camau datblygu. Dywedodd rhai o'r plant wrthym pwy yw eu ffrindiau. Mae'r plant yn dechrau cydweithio a rhannu. Roedd yn bleser eu gweld yn rhannu cynhwysion pobi ffug yn yr awyr agored, gan drafod beth i'w bobi. Mae'r plant yn wydn ac yn hyderus iawn. Er enghraifft, os ydynt yn syrthio, maent yn codi ar unwaith ac yn parhau i chwarae'n hapus, os nad ydynt wedi anafu eu hunain. Mae'r plant yn teimlo eu bod yn perthyn, am fod ardal bersonol iddynt gadw eu cotiau a'u bagiau eu hunain. Mae rhai o'r plant yn dechrau deall anghenion pobl eraill ac yn barod i'w helpu.

Mae'r plant yn ymddiddori yn eu chwarae, ac yn chwarae mewn ffordd frwdfrydig. Gwelsom fod y plant yn ymddiddori'n fawr mewn gweithgareddau megis pwmpio dŵr ewynnog i lawr llethr a gwelsom fod ymdeimlad o gyflawniad ar eu hwynebau. Maent yn canolbwyntio am gyfnodau hir, gan dreulio llawer o amser yn casglu dŵr a'i arllwys yn y gegin fwd neu ei ddefnyddio gyda set de chwarae. Gwelsom fod y babanod yn chwerthin yn hapus wrth i aelod o'r staff chwythu swigod. Roedd y plant yn chwerthin wrth iddynt chwarae mewn ffordd ddychmygus mewn car go iawn ac esgus mynd ar deithiau.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd rhagorol i wneud pethau drostynt eu hunain. Maent yn dewis teganau a gweithgareddau, sy'n eu helpu i feithrin sgiliau ar gyfer bod yn annibynnol megis arllwys a chario dŵr. Mae'r plant yn hyderus i roi cynnig ar bethau newydd a chaiff eu hunan-barch ei hybu wrth iddynt wneud hynny.

## Gofal a Datblygiad

Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach yn gyson. Caiff anghenion y plant eu diwallu ac maent yn gwneud cynnydd da yn y gwasanaeth hwn. Mae'r staff yn rhoi polisïau a gweithdrefnau effeithiol ar waith, ac maent wedi adolygu'r gwasanaeth a'r gofal yn unol â'r canllawiau yn ymwneud â phandemig COVID-19. Mae'r staff yn cydweithio'n dda iawn i ddiwallu anghenion y plant yn effeithiol. Mae'r staff yn cael hyfforddiant cyfredol ar amddiffyn plant, cymorth cyntaf a hylendid bwyd. Mae'r staff yn cynnig cyfleoedd i'r plant wneud ymarfer corff rheolaidd yn yr awyr iach am gyfnodau hir. Mae'r staff yn gallu siarad yn hyderus am ddiogelu a'r gweithdrefnau cywir i'w dilyn yn achos pryder am ddiogelu plant. Yn gyffredinol, maent yn deall ac yn dilyn y polisi meddyginiaeth ond nid yw'r rhieni yn llofnodi i roi caniatâd cyn i feddyginiaeth gael ei rhoi i'w plentyn. Rhoddodd yr unigolyn cyfrifol sicrwydd fod caniatâd yn cael ei roi ond nid oes cofnod yn cael ei gadw. Mae'r staff yn darparu byrbrydau a phrydau iach ac mae bwydlen tair wythnos faethlon yn cael ei harddangos, ac mae cogydd hyfforddedig penodedig yn paratoi prydau. Caiff cynllun trylwyr ar gyfer gwagio'r adeilad os bydd tân ei adolygu'n rheolaidd ac mae ymarferion tân yn dangos bod y staff yn gwybod sut i wagio'r safle yn ddiogel mewn argyfwng.

Mae'r staff yn rhyngweithio'n dda â'r plant. Maent yn cefnogi'r plant yn effeithiol i reoli eu hymddygiad a hybu eu hunan-barch. Maent yn rhoi llawer o ganmoliaeth iddynt, er enghraifft, wrth wrando ar stori a rhannu offer. Mae'r staff yn siarad â'r plant mewn grwpiau ac fel unigolion yn gyson ac yn eu hannog i ddangos caredigrwydd at ei gilydd. Mae'r staff yn dangos esiampl dda drwy fod yn amyneddgar ac yn gwrtais. Maent yn creu cyfnodau cymdeithasol ar gyfer y plant, gan gynnwys amseroedd bwyd pan wnaethant eistedd gyda'r plant a sgwrsio yn anffurfiol.

Mae'r staff yn gwybod cryfderau, anghenion a hoff bethau'r plant, a gallant weithredu ar y rhain fel y bo'n ofynnol. Dywedodd y rhieni fod y staff yn mynd gam ymhellach i sicrhau bod anghenion unigol y plant yn cael eu diwallu. Maent yn cofnodi arsylwadau o ddatblygiad y plant ac yn cynllunio gweithgareddau i hybu datblygiad. Mae hyn yn hwyluso'r gwaith o gynllunio gweithgareddau er mwyn eu teilwra i'r plentyn unigol. Mynegodd un rhiant ei hyder yn y staff i helpu datblygiad ei blentyn. Mae'r staff yn rhagweithiol wrth gynllunio anghenion ieithyddol y plant ac mae'r staff Cymraeg eu hiaith yn siarad â'r plant sydd o gartrefi Cymraeg yn yr iaith honno.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn datblygu amgylchedd cyffrous i wella profiadau'r plant, megis defnyddio eitemau cartref go iawn. Mae'r amgylchedd yn ddiogel, yn lân ac mewn cyflwr da, sy'n darparu lle diogel a chyfforddus i'r plant ymlacio a dysgu. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth wedi nodi risgiau a chymryd camau gweithredu i leihau neu ddileu'r rhain. Mae'r asesiadau risg yn fanwl, yn cael eu hadolygu ac mae'r staff yn eu dilyn. Drwy wneud hyn, mae'r staff yn gwybod am beryglon posibl a sut i'w lleihau, megis defnyddio monitorau babanod i sicrhau diogelwch babanod sy'n cysgu.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth wedi gwneud gwelliannau i rai o'r ardaloedd ac wedi nodi meysydd eraill i'w gwella. Mae ganddynt ddodrefn cartref megis dreserau ym mhob un o'r ystafelloedd, sy'n rhoi profiad cartrefol i'r plant. Mae'r cyntedd wedi'i osod mewn ffordd ddeniadol gyda hysbysiadau, lluniau ac eitemau i helpu'r rhieni i ddeall pa weithgareddau y mae eu plant yn cymryd rhan ynddynt. Roedd y person â chyfrifoldeb yn cydnabod bod gwelliannau pellach y gallai ei wneud ac mae'n bwriadu canolbwyntio ar yr ardal awyr agored i'r plant bach nesaf. Mae ardaloedd chwarae a dysgu arloesol amrywiol â digon o adnoddau ynddynt wedi cael eu creu dan do, gan sicrhau bod gan y staff y cyfarpar i gynnig gweithgareddau ysgogol a chyffrous i'r plant. Mae pob ardal yn cael ei defnyddio'n dda a gwelsom fod y plant yn yr awyr agored am lawer o'r amser, a dywedwyd wrthym fod y babanod wedi defnyddio ardal newydd y cae drws nesaf yn gynharach y bore hwnnw.

Mae'r adnoddau, y teganau a'r llyfrau yn addas, gan gynnwys y rhai sy'n hybu chwilfrydedd y plant. Gwelsom y plant yn archwilio ac yn arbrofi gyda blychau plastig a hen riliau ceblau ac roedd yn bleser gweld faint roeddent yn trafod ac yn cydweithio â'i gilydd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth a'r staff wedi arddangos gwaith celf lliwgar ac addas, gan wneud gweithgareddau'r plant yn bwrpasol. Mae ardal gardd awyr agored, sy'n rhoi cyfleoedd i'r plant dyfu eu hadau a'u bylbiau eu hunain.

Mae dodrefn addas ar gyfer y plant, a chadeiriau isel ac ardaloedd cysgu ar gyfer y babanod. Mae'r adnoddau, sy'n addas ar gyfer oedran y plant, mewn cyflwr da iawn. Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn darparu rhai adnoddau naturiol i'r plant eu harchwilio, megis darnau bach o risgl, cregyn, llawer o eitemau pren a darnau bach o lechi er mwyn i'r plant helpu i'w lledaenu ar y llawr.

## Arwain a Rheoli

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn wybodus am yr arferion gofal plant presennol, a nodir hyn yn y Datganiad o Ddiben sy'n hawdd ei ddeall. Mae'r ddogfen yn gynhwysfawr, ac yn ystod yr arolygiad gwelsom fod y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn diwallu anghenion y plant a'u rhieni. Caiff y polisïau a'r gweithdrefnau eu diweddaru a'u rhannu â phob aelod o'r staff. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r holl brosesau i'w dilyn. Dywedodd un rhiant wrthym ei fod wedi cael yr holl wybodaeth angenrheidiol cyn dewis y gwasanaeth hwn, ac roedd yn falch ei fod wedi gwneud y dewis cywir.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth yn monitro ac yn gwerthuso'r gwasanaeth yn effeithiol ac yn rheolaidd. Dywedodd un rhiant wrthym fod y gwasanaeth wedi gofyn am ei farn am y gwasanaeth, a gall y staff wneud awgrymiadau yn eu cyfarfod staff misol. Gwelsom lawer o dagiau gyda chanmoliaeth ysgrifenedig gan y rhieni yn y cyntedd. Mae'r Adolygiad Blynyddol o Ansawdd y Gofal wrthi'n cael ei lunio a chaiff ei anfon i AGC maes o law. Mae llawer o welliannau i'r ardal awyr agored eisoes wedi cael eu gwneud, sy'n gwella'r cyfleoedd i'r plant ddysgu.

Mae'r trefniadau recriwtio staff yn gadarn. Roedd y ffeiliau yn dangos bod yr holl wiriadau wedi cael eu gwneud er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn addas i weithio gyda phlant, gan gynnwys gwiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae'r arfarniadau blynyddol, sy'n ystyrlon, yn cynnwys hyfforddiant a meysydd i'w datblygu yn y dyfodol. Roedd y staff a oedd yn bresennol yn ystod yr arolygiad (sef y staff rheolaidd) yn gweithio'n dda fel tîm, gyda phob un ohonynt yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac yn barod i arwain y plant yn briodol.  O ganlyniad i hyn, mae'r plant wrth eu bodd â'r gofal a ddarperir gan staff brwdfrydig sydd ag agwedd rwydd. Darperir hyfforddiant rheolaidd a pherthnasol i'r staff a gwelwyd siart yn nodi pryd roedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau cyrsiau gofynnol, ynghyd â dyddiadau gwiriadau DBS. Mae defnyddio'r wybodaeth hon yn galluogi'r bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth i gadw hyfforddiant megis Cymorth Cyntaf yn gyfredol.

Mae'r cydberthnasau â'r rhieni yn gadarnhaol ac yn cyfrannu at lesiant y plant. Mae cyfathrebu rheolaidd â'r rhieni yn adlewyrchu pa mor bwysig yw partneriaeth â'r rhieni i'r rhai sy'n rhedeg y gwasanaeth. Dywedodd un rhiant wrthym fod cylchlythyrau rheolaidd a gwybodaeth ddefnyddiol ar hysbysfyrddau. Mae'r arferion hyn yn galluogi'r rhieni/gwarcheidwaid i barhau i fod yn rhan o ofal eu plant. Dywedodd y rhieni wrthym fod y staff wedi eu cefnogi a dywedodd rhiant arall ei fod yn ddiolchgar iddynt am roi gwybod iddo am ddiwrnod ei blentyn a'i fod yn ddiolchgar hefyd i'r staff sy'n gweithio gydag ef i helpu ei blant.

## Argymhellion i gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol

**A1** – rhaid i rieni lofnodi'r daflen feddyginiaeth (neu dylid cadw cofnodion ar wahân) pan roddir caniatâd cyn rhoi meddyginiaeth.

| **Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Wedi'i gyflawni** |
|---|

| **Y meysydd i'w gwella a'r camau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol neu ers hynny. Heb ei gyflawni** | |
|---|---|
| Dim | |

| **Meysydd lle y mae angen gweithredu â blaenoriaeth** | |
|---|---|
| Dim | |

| **Meysydd lle y mae angen gwneud gwelliannau** | |
|---|---|
| Dim | |

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad Cyhoeddi** 17/06/2021